# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 (Senedd)**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Gorffennaf 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

**Yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Julie Morgan yn Gadeirydd Dros Dro ar gyfer eitemau 1 i 5 o'r cyfarfod heddiw ac unrhyw fusnes arall sy'n ymwneud â chraffu cyn penodi sy'n cael ei ystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar 8 a 15 Gorffennaf 2024**

**Cofrestru cyn y cyfarfod** (13:00-13:30)

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(13:30)

**2 Gwaith craffu cyn penodi - ymgeisydd a ffefrir ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

(13:30-14:30) (Tudalennau 1 - 18)

Rhian Bowen Davies, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw**

(14:30)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**4 Gwaith craffu cyn penodi – ymgeisydd a ffefrir ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: trafod y dystiolaeth a'r adroddiad**

(14:30–15:10)

**Egwyl** (15:10–15:15)

**5 Ymchwiliad i ofal plant: trafod yr adroddiad drafft**

(15:15–16:00)

# Recriwtio Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Cefndir**:

Mae rôl a phwerau statudol y Comisiynydd yn cael eu diffinio gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r camau y gall y Comisiynydd eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau a'r cymorth y gall y Comisiynydd ei ddarparu'n uniongyrchol i bobl hŷn mewn sefyllfaoedd penodol.

**Swyddogaethau'r Comisiynydd**

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

**Perthynas â Phobl Hŷn**

Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau:
- Bod pobl hŷn yng Nghymru yn cael gwybod am swyddfa'r Comisiynydd a'i swyddogaethau.
- Bod pobl hŷn yng Nghymru yn cael gwybod am leoliad swyddfa neu swyddfeydd y Comisiynydd ac ym mha ffyrdd y gallant gyfathrebu â'r Comisiynydd a'i staff.
- Bod pobl hŷn yn cael eu hannog i gyfathrebu â'r Comisiynydd a'i staff.
- Bod barn pobl hŷn yn cael ei cheisio ynghylch sut y dylai'r Comisiynydd arfer ei swyddogaethau ac ynghylch cynnwys rhaglen waith flynyddol y Comisiynydd.
- Bod y Comisiynydd a'i staff yn trefnu eu bod ar gael i bobl hŷn yn ardal pob person hŷn.

**Crynodeb Cyhoeddusrwydd:**

Dosbarthodd Llywodraeth Cymru fanylion y penodiad drwy restrau rhanddeiliaid a ddelir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus (PBU) a phostio'r swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Hyrwyddwyd y swydd wag gan y sianeli Cyfryngau Cymdeithasol canlynol a'i hysbysebu drwy'r cyfryngau a restrir isod:

- Y Cymro
- Golwg (wefan yn unig)
- Diversity Jobsite
- Fish 4 Jobs

**Crynodeb o'r broses recriwtio:**

Hysbysebwyd ar wefan Llywodraeth Cymru rhwng 15 Ionawr a 9 Chwefror 2024

Sifft – 11 Mawrth 2024

Sesiwn Rhanddeiliaid – 18 Ebrill 2024

Mae'n ofynnol i'r Prif Weinidog drwy ddeddfwriaeth ystyried barn pobl hŷn ynghylch unrhyw ymgeiswyr a gyfwelwyd ar gyfer y penodiad. Mae'r Panel Pobl Hŷn yn cynnwys nifer o unigolion priodol. Maent yn adlewyrchu gwybodaeth a phrofiad manwl o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn ac yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo'r rhain.

Gofynnwyd i'r ymgeiswyr gyflwyno cyflwyniad ar y canlynol:

**"Pa rinweddau personol y byddwch chi'n eu cyflwyno i rôl Comisiynydd Pobl Hŷn"**

Cyfweliadau – 12 a 13 Mehefin 2024. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr gyflwyno cyflwyniad ar y canlynol:

**Sut fyddech chi'n blaenoriaethu eich amser a'ch adnoddau fel Comisiynydd Pobl Hŷn i gyrraedd pobl hŷn sydd â'r angen mwyaf am eich cefnogaeth?**

**Aelodaeth panel cynghori asesu:**

Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet Dros Ddiwylliant a Chyfiawnder (Cadeirydd)
Jenny Rathbone, AS, Cadeirydd Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Ruth Marks, Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel
Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru

Derbyniwyd cyfanswm o 12 cais ar gyfer y rôl newydd. Cafodd 6 ymgeisydd eu hargymell ar gyfer cyfweliad. Ystyriodd y Panel Cynghori Asesu fod 2 ymgeisydd Penodedig.

**Hoff ymgeisydd y Prif Weinidog** – Rhian Bowen Davies

**Gwrthdaro Buddiannau (o'r ffurflen gais)**

Ar hyn o bryd rwy'n rhedeg busnes ymgynghori annibynnol fel unig fasnachwr sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig a thrais rhywiol yn enwedig Cadeirio Adolygiadau Dynladdiad Domestig.

**Gweithgaredd Gwleidyddol (fel y nodir ar y ffurflen gais)**
Dim

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - Datganiad personol yr ymgeisydd

Rwy’n gyffrous i wneud cais am swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; cyfle unigryw i hyrwyddo hawliau a lleisiau pobl hŷn yn annibynnol wrth gefnogi a llywio gweledigaeth Cymru i ddod yn genedl gyfeillgar i oed.

Mae’r ddwy enghraifft ganlynol yn dangos fy ymrwymiad i **hyrwyddo a diogelu buddiannau a hawliau pobl hŷn** a’r **wybodaeth a’r ddealltwriaeth sydd gennyf o ran y materion sy’n wynebu pobl hŷn a’r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt.**

Rwy'n cael fy nghydnabod fel Cadeirydd arbenigol Adolygiadau Dynladdiad Domestig (ADD) sy'n cynnwys pobl hŷn; archwilio amgylchiadau marwolaeth unigolyn a nodi dysgu i atal marwolaethau yn y dyfodol. Mae’n hollbwysig i mi fod llais y person hŷn yn cael ei glywed drwy’r adolygiad ac rwy’n gweithio gyda’u teulu, ffrindiau ac aelodau o’u cymuned i ddeall sut roedden nhw’n byw eu bywyd, beth roedden nhw’n ei fwynhau a’r problemau a brofwyd ganddynt. Er bod pob adolygiad yn wahanol, rwyf wedi dod o hyd i gyffredinedd o ran y **materion y mae’r person hŷn yn eu hwynebu** sy’n cynnwys profiadau o gam-drin domestig ac ymddygiadau gorfodi a rheoli, cam-drin ariannol, eu gallu i gael eu clywed, iechyd a lles corfforol a meddyliol, hygyrchedd gwasanaethau sy’n diwallu eu hanghenion, unigrwydd ac arwahanrwydd, natur wledig, allgáu digidol, trafnidiaeth, dynameg gofalu ac anghenion sy’n croestorri.

Fel y Cadeirydd, rwy’n gweithio ochr yn ochr ag amrywiaeth o wasanaethau a ddefnyddir gan bobl hŷn gan gynnwys gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd, gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr tai, yr Adran Gwaith a Phensiynau, cyflogwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau sector arbenigol a gwirfoddol e.e. Age Cymru, Cyngor ar Bopeth a Gwasanaethau Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i archwilio’r cyswllt a gafodd yr unigolyn ag ef, ei ymatebion unigol a chyfunol ac i nodi’r rhwystrau a brofodd y person hŷn wrth gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Mae cwmpas y ADD yr wyf wedi’u cadeirio wedi rhoi gwell **gwybodaeth a dealltwriaeth i mi o arferion gweithredol y gwasanaethau** hyn, y fframweithiau strategol a pholisi y maent yn gweithredu ynddynt a’r heriau y maent yn eu hwynebu gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau, cymhlethdod anghenion, adnoddau a recriwtio a chadw gweithlu medrus.

Mae fy adroddiadau manwl a dadansoddol yn dangos sut yr wyf yn cymhwyso **egwyddorion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn** i ategu fy nadansoddiad o ymatebion gweithredol, strategol a systemig i bobl hŷn. Drwy nodi’r hyn a ddysgwyd, amlygu arfer da o’r DU a thu hwnt a gwneud argymhellion fy nod yw **hyrwyddo a diogelu buddiannau pobl hŷn**. Mae fy argymhellion wedi arwain at newidiadau cadarnhaol mewn arferion gan gynnwys ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ac ymatebion yn y gymuned sy’n canolbwyntio ar brofiadau pobl hŷn o gam-drin, hyfforddiant ymarferwyr a chomisiynu gwasanaeth cymorth pwrpasol ar gyfer pobl hŷn sy’n cael eu cam-drin. Gellir gweld enghreifftiau cyhoeddedig o fy ADD yn https://www.sir-benfro.gov.uk/sir-benfro-ddiogelach/daeth-adolygiadau-dynladdiad-yn-y-cartref

Yn 2023, cefais fy nghomisiynu i ddatblygu Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Fel gyda’r holl waith a nodir yn fy CV, roedd lleisiau a phrofiadau unigol yn ganolog i’m dull o ddatblygu’r strategaeth. Cyfarfûm â grŵp amrywiol o bobl hŷn a siaradodd yn helaeth am eu perthnasoedd a’u sefyllfaoedd byw, y gwasanaethau a gawsant, ansawdd eu rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus, yr hyn a weithiodd a pha agweddau a achosodd broblemau iddynt a’r hyn a oedd yn angenrheidiol er mwyn iddynt allu gwneud hynny a theimlo'n ddiogel a byw'n dda. Gan adeiladu ar waith blaenorol a wnaed ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn ac adolygiadau o wasanaethau cyhoeddus,

fe wnaeth yr ymgysylltu hwn wella fy **nealltwriaeth fanwl o'r materion sy'n wynebu pobl hŷn yng Nghymru** gan gynnwys (ond nid yn gynhwysfawr) argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau, rhagfarn ar sail oed a gwahaniaethu, cyfranogiad , trafnidiaeth, ynysu cymdeithasol, annibyniaeth, lleoliad ac ansawdd tai, mynediad at ofal, gwasanaethau cymorth, incwm, addysg a chyflogaeth, darparu ymyriadau priodol, diogelwch a diogelu. O ganlyniad i'r ymgysylltu hwn bûm yn blaenoriaethu pobl hŷn yn y strategaeth ranbarthol ac yn cynnig camau gweithredu asiantaethau a phartneriaethau unigol yr oedd eu hangen i wella ymatebion i bobl hŷn. Canlyniad y gwaith hwn oedd strategaeth ranbarthol a oedd yn blaenoriaethu diogelwch a diogelu pobl hŷn ac yn sicrhau mynediad at wasanaethau arbenigol, pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion. Cyflwynais fy strategaeth ddrafft i'r Bwrdd Diogelu a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol, gan fynegi'r sail dystiolaeth a'r rhesymeg dros flaenoriaethu pobl hŷn, eu hawliau a'u buddiannau. Cymeradwywyd fy strategaeth a'm cynllun cyflawni gan y partneriaethau rhanbarthol, strategol sydd wedi cymryd perchnogaeth dros eu cyflawni. Gellir gweld copi o'r strategaeth yn https://cysur.wales/vawdasv/vawdasv-strategy/

Mae fy holl waith yn dibynnu ar gynnal gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddeddfwriaeth a pholisi Cymru a'r DU, sut maent yn cyfieithu ar lefel ranbarthol a lleol a beth maent yn ei olygu i hawliau a chydraddoldeb gwahanol grwpiau o bobl yn eu bywydau bob dydd. . Mae'r gwaith strategaeth a ADD a nodir uchod yn dangos sut rwy'n **defnyddio fy ngwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r cyd-destun polisi eang** y mae gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl hŷn yng Nghymru yn gweithredu ynddo fel sail i'm gwaith. Mae'r meysydd polisi hyn yn cynnwys rheini sydd wedi datganoli a'r rhai nad ydynt gan cynnwys Diogelu, Tai a Digartrefedd, Cyfiawnder Troseddol, Diogelwch Cymunedol, Iechyd a Lles, Gofal Cymdeithasol, Iechyd y Cyhoedd, yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Addysg, Cyflogaeth a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Rwyf hefyd yn gyfarwydd â'r strwythurau llywodraethu lleol a rhanbarthol sy'n dod â gwasanaethau ynghyd i gyflawni ar y cyd y dyletswyddau sydd wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Rwy'n deall sut mae *Cymru Gyfeillgar i Oed: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio* a *Cysylltu Cymunedau* yn dod â meysydd polisi datganoledig at ei gilydd i gyflawni gweledigaeth sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.

Mae gen i **brofiad sylweddol o weithio ar lefel uwch**, ar ôl bod mewn rolau arwain yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru am dros 15 mlynedd. Fel Prif Weithredwr Calan DVS bûm yn dangos arweinyddiaeth strategol i dimau perfformiad uchel gan ymateb i anghenion unigolion sy'n dioddef cam-drin domestig yng Nghymru, datblygiad sefydliadol a busnes, arallgyfeirio incwm a thwf cynaliadwy, perfformiad a rheolaeth ariannol a hyrwyddo rhagoriaeth ac arfer gorau. Arweiniodd fy ngweledigaeth strategol ac arweinyddiaeth at gydnabod Calan DVS fel sefydliad blaengar, deinamig ac arloesol ac anrhydeddau unigol e.e. ennill Cyfarwyddwr y Flwyddyn Sefydliad Cyfarwyddwyr y DU (2015). Mae gennyf **wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o lywodraethu da**. Fel Prif Weithredwr Calan DVS sefydlais a chynhaliais fframweithiau a pholisïau sefydliadol cadarn a oedd yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer gwneud penderfyniadau, rheoli risg, cyflawni a chydymffurfio gan arwain at y sefydliad yn ennill Gwobr Llywodraethu Da genedlaethol. Fel Arweinydd Partneriaeth ar gyfer Heddlu Gwent, sefydlais strwythurau llywodraethu aml-asiantaeth ar gyfer nider o bartneriaethau a rhaglenni gwaith gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau. Fel cyn Gadeirydd ac Ymddiriedolwr sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru rwyf hefyd yn deall llywodraethu o safbwynt aelod o'r Bwrdd gan gynnwys rolau, cyfrifoldebau, strwythurau adrodd, perfformiad a rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol.

Mae amrywiaeth fy ngyrfa wedi fy ngalluogi i ddatblygu **sgiliau rhyngbersonol, rhwydweithio a chyflwyno hynod effeithiol.** Yn siaradwr Cymraeg, rwy'n gyfathrebwr hyderus a chroyw ac yn siaradwr profiadol ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol. Rwyf wedi cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor y Senedd mewn perthynas â deddfwriaeth/polisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac wedi rhoi cyflwyniadau i fforymau cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol, Partneriaethau Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelu i hybu ymwybyddiaeth o ystod o faterion yn ymwneud â hawliau a chydraddoldeb. Fel Cynghorydd Cenedlaethol, adeiladais berthnasoedd effeithiol gyda swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth y DU a Chymru a gwnes gynrychioliadau ysgrifenedig a llafar yn rheolaidd ar faterion yn ymwneud â pholisi cymdeithasol ac ariannu a hygyrchedd darpariaeth gwasanaeth teg. Trwy gyflwyno dadleuon ar sail tystiolaeth wnes i negodi diwygiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol e.e. Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, Gofyn a Gweithredu ac amddiffyn plant rhag cosb gorfforol. Mae'r gwaith ar adolygiadau a datblygu strategaeth a nodir uchod yn enghreifftiau o'm gallu i weithio mewn partneriaeth ag unigolion, cymunedau a sefydliadau statudol a thrydydd sector. Drwy wrando a deall yr hyn sy'n bwysig a throsi'r rhain yn flaenoriaethau ac yn argymhellion i wella polisi ac arfer rwyf wedi adeiladu a chynnal perthnasoedd effeithiol a dylanwadol ar draws cymunedau a'r Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector yng Nghymru. Mae cwmpas a hirhoedledd y perthnasoedd hyn yn dangos fy ngallu i ennyn hyder trwy ddangos tryloywder, atebolrwydd, uniondeb a gwrthrychedd yn gyson yn fy ngweithredoedd a'm penderfyniadau.

Mae gen i dros 10 mlynedd o **brofiad o ryngweithio â'r cyfryngau** gan gynnwys rheoli ac ymateb i geisiadau am gyfweliadau teledu/Radio dwyieithog yn ymwneud ag eitemau newyddion a materion cyfoes. Mae fy ngallu i ryngweithio'n effeithiol gyda'r cyfryngau wedi golygu fy mod yn gyfrannwr cyson ar BBC Wales Today, S4C Newyddion a Politics Wales a gofynnir am fy arweiniad hefyd mewn perthynas ag arfer gorau ar raglenni dogfen pwnc-benodol e.e. A Prif (2023), Byw Heb Ofn (2024). Yn ystod cyfweliadau byw ac wedi'u recordio ymlaen llaw, rwyf wedi darparu dadansoddiad gwrthrychol ac wedi amlygu arfer gorau mewn perthynas â materion sy'n seiliedig ar hawliau gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwahaniaethu a cham-drin er mwyn ysgogi newid cynyddol.

Mae gennyf wybodaeth a phrofiad cynhwysfawr o'r **trefniadau arolygu a rheoleiddio** a ddefnyddir i arolygu gwasanaethau cyhoeddus a ddefnyddir gan bobl hŷn yng Nghymru a Lloegr. Rwyf wedi cymryd rhan mewn arolygiadau asiantaeth sengl ac ar ôl sefydlu hybiau diogelu pob oed yng Ngwent, cyfrannais at yr arolygiad ar y cyd cyntaf yng Nghymru a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf.

Rwy'n angerddol am y cyfle i gymhwyso'r sgiliau a'r profiad rwyf wedi'u cronni hyd yma i rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn, gan gyfuno fy ngalluoedd amlochrog ac eang â'm gwybodaeth benodol am bobl hŷn a'r fframweithiau polisi sy'n effeithio ar ansawdd eu bywydau. Rwy'n awyddus i ddod â'r elfennau hyn ynghyd i hyrwyddo hawliau a lleisiau pobl hŷn yng Nghymru a chreu newid cadarnhaol.

**R H I A N  B O W E N - D A V I E S**

**M a n y l i o n  B y w g r a f f y d d o l**

**HANES CYFLOGAETH**

| | |
|---|---|
| **Hydref 2017 hyd yma** | Ymgynghorydd Annibynnol yn darparu gwasanaeth ymgynghori pwrpasol i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol. Gwaith dethol**:**<br><br>Cadeirydd ac Awdur 12 Adolygiad Dynladdiad Domestig ledled Cymru a Lloegr.<br><br>Datblygu strategaeth a chynllun comisiynu rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru (2023).<br><br>Adolygiad Thematig o Adolygiadau Dynladdiad Domestig: Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cysur (2023).<br><br>Ymchwil i'r gwasanaethau cymorth a chyngor sydd ar gael i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n profi cam-drin yng Nghymru. Ymchwil a gomisiynwyd ar ran Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020-2021).<br><br>Arweinydd rhaglen ar gyfer datblygu a sefydlu hybiau diogelu, ymyrraeth gynnar ac atal amlasiantaethol yng Ngwent (2020).<br><br>Adolygiad o Wasanaethau Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol ar ran Comisiynwyr Heddlu a Throseddu De Cymru, Dyfed Powys a Gwent (2021)<br><br>Arweinydd Partneriaeth ar gyfer y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, rhaglen a ariennir gan y Swyddfa Gartref i wella plismona ac ymatebion partner i bobl sy'n agored i niwed o safbwynt Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod sy'n seiliedig ar drawma (2018-2021).<br><br>Adolygiad o Wasanaethau Cam-drin Rhywiol, Trais a Chamfanteisio yng Ngwent ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent (2018)<br><br>*Carchardai a'r Iaith Gymraeg;* Cytundeb ymchwil ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg (2018). |
| **2015 i 2017** | **Cynghorydd Cenedlaethol Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, mathau eraill o drais ar sail rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**<br><br>Y cyntaf o'i fath yn y DU, roedd y Penodiad Cyhoeddus proffil uchel hwn yn darparu cyngor annibynnol, strategol ac arbenigol ar weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Gweithio gyda, ac ochr yn ochr â Goroeswyr, Gweinidogion, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, arweinwyr yn y sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector i lunio a dylanwadu ar ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol. Gan adrodd yn uniongyrchol i'r Gweinidog pwrpas y rôl oedd gyrru gwelliannau yn eu blaen a hyrwyddo arfer gorau a safonau ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau i unigolion a theuluoedd sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.. |
| **2013 i 2015** | **Prif Weithredwr Calan DVS, Gwasanaeth Trais yn y Cartref**<br><br>Arwain datblygiad strategol a thwf cynaliadwy y sefydliad deinamig hwn; darparu llywodraethu cadarn a rheolaeth ariannol, fframweithiau rheoli perfformiad cryf, arallgyfeirio incwm a datblygu busnes, datblygu a gweithredu |

strategaeth' hyrwyddo rhagoriaeth ac arfer gorau i ddarparu gwasanaethau cadarnhaol sy'n newid bywyd i unigolion a theuluoedd sy'n profi trais a cham-drin domestig.
Dylanwadu ar bolisi ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a materion cysylltiedig gan gynnwys Tai a Digartrefedd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Addysg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

**2008 i 2013** **Rheolwr Cymorth i Ferched Castell-nedd**

**2005 i 2008** **Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) Uned Ddiogelwch Pontypridd**

**2001 i 2008** **Swyddog Heddlu Heddlu De Cymru**

**ROLAU GWIRFODDOL**

**2014 i 2015** **Aelod Bwrdd Cymorth Cymru**

**2010 i 2013** **Ymddiriedolwr Cymorth i Ferched Cymru**

**CYFLAWNIADAU PERSONOL**

| | |
|---|---|
| **2015** | **Sefydliad y Cyfarwyddwyr (DU)** Cyfarwyddwr y Flwyddyn, Sector Dielw a Menter Gymdeithasol |
| **2015** | **Sefydliad y Cyfarwyddwyr (Cymru)** Cyfarwyddwr y Flwyddyn, Elusen a Menter Gymdeithasol |
| **2014** | Cyrhaedd Rownd Derfynol **Gwobrau Trydydd Sector y DU** a Chanmoliaeth Uchel 'Prif Weithredwr sy'n Codi' |
| **2013** | **Gwobr Arweinwyr Cymru**, Sector Gwirfoddol a Dielw |

**CYMHWYSTERAU QUALIFICATIONS**

**2001** LLB Gradd 2:1 yn y Gyfraith; Prifysgol Cymru Caerdydd

**DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS**

**Arweinyddiaeth Strategol a Chyfannol**
Rhaglenni wedi'u cwblhau sydd wedi cynyddu gwybodaeth, sgiliau a hyder i arwain timau sy'n perfformio'n dda, cyflawni newid strategol ac archwilio rhinweddau, ymddygiadau a chymwyseddau arweinwyr effeithiol.

**Rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth**
Cwblhau hyfforddiant yn ymwneud â rheolaeth ariannol a llywodraethu i gynyddu sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau er mwyn sicrhau sefydliad sy'n cydymffurfio, yn gynaliadwy ac yn ariannol graff.

**Mentora a Hyfforddi**
Ymgymryd â hyfforddiant yn y meysydd hyn i gefnogi datblygiad unigolion a thimau i gyflawni eu potensial a gwneud y mwyaf o'u cyfraniadau at nodau sefydliadol a phersonol cyffredinol.

**Dysgu pwnc-benodol**
Briffiau deddfwriaethol, polisi ac ymarfer, cynadleddau, ymchwil a rhaglenni ffurfiol i gyfoethogi fy ngwybodaeth a dealltwriaeth pwnc-benodol yn sylweddol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

# Penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Dyddiad cau: 16:00, 9 Chwefror 2024

The Commissioner for Public Appointments

## Cynnwys


1. Gwneud cais ........................................................................................ 3
2. Y Broses Benodi .................................................................................. 5
3. Cefndir Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru........................................................ 7
4. Manyleb y Person ................................................................................. 8

## 1. Gwneud cais

Diolch ichi am eich diddordeb yn swydd **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.** Mae'r Atodiadau sy'n dod gyda'r pecyn yn rhoi manylion am rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn ogystal â manyleb y person a gwybodaeth am y broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: Penodiadau Cyhoeddus - (tal.net), dewiswch rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a chliciwch 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd drwy system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. O wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu gwneud drwy'ch cyfrif cofrestredig.

Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad i'r ffurflen gais. I wneud cais am y swydd hon, **rhaid** i chi gwblhau'r ffurflen yn llawn, neu ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich cais. Efallai y bydd y "Cyfarwyddiadau" sy'n ymddangos fel opsiwn ar frig pob tudalen o'r ffurflen gais yn ddefnyddiol. Cofiwch arbed eich cais cyn allgofnodi.

Gobeithiwn y bydd y broses ar-lein yn syml i'w dilyn ond rydym yn cydnabod na fydd pawb yn gallu ei defnyddio oherwydd eu gofynion hygyrchedd unigol eu hunain. Os na allwch wneud cais ar-lein, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus ar PublicAppointments@gov.wales a fydd yn gallu darparu copi o'r ffurflen gais mewn fformat arall.

**Datganiadau Personol**
Mae datganiadau personol yn rhoi cyfle ichi ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Caiff eich datganiad personol ei ystyried fel rhan o'r broses penodiadau cyhoeddus.

Chi sy'n penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio pa ran y gwnaethoch chi ei chwarae wrth gyflawni amcan penodol. Gallwch hefyd helpu'r panel dethol drwy ddangos yn glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i ba faen prawf penodol. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Sicrhewch nad yw eich datganiad personol yn hirach na dwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os bydd eich datganiad yn hirach na hyn.

**CV**
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl hon.

**Gellir llwytho eich datganiad personol a'ch CV i adran 'Gwybodaeth / Tystiolaeth Ychwanegol' y ffurflen gais ar-lein.**

**Geirda**
Rhowch enwau dau ganolwr (cyflogwr a phersonol). Byddwn yn cysylltu â nhw os byddwch yn llwyddiannus. Er mwyn cadw'r safonau uchaf o ran uniondeb a

phriodoldeb, ni allwn dderbyn Aelodau o'r Senedd na chyflogeion Llywodraeth Cymru fel canolwyr ar gyfer ceisiadau am aelodaeth o gyrff cyhoeddus.

## 2. Y Broses Benodi

Gwneir y penodiad hwn drwy broses penodiadau cyhoeddus; bydd pobl hŷn a'r rhai sy'n cynrychioli barn pobl hŷn yn rhan o'r broses ar wahanol gamau ohoni yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 a Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio, Darpariaeth Drosiannol a Dirymu) 2023

| |
|---|
| **Cam 1:** Gwahoddir ceisiadau am rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Manylion y gofynion ymgeisio fel y nodir uchod. |
| Amserlen fras: Dyddiad cau 9 Chwefror 2024 |
| |
| **Cam 2:** Ar ôl y dyddiad cau, bydd panel o swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ceisiadau. Bydd y panel yn asesu pa mor addas yw pob ymgeisydd ar gyfer y rôl yn erbyn y meini prawf hanfodol ac yn llunio'r rhestr hir. |
| |
| Yna bydd Panel Asesu Ymgynghorol sy'n cynnwys y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Uwch-aelod Annibynnol, Uwch-swyddog Llywodraeth Cymru ac Aelod o'r Senedd a enwebir gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn llunio'r rhestr fer. |
| Amserlen fras: Chwefror 2024 |
| |
| **Cam 4:** Gwahoddir yr ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfarfod â phanel o bobl hŷn ac arbenigwyr ym maes heneiddio. Bydd y panel yn asesu gwybodaeth yr ymgeiswyr am y materion sy'n wynebu pobl hŷn yng Nghymru a'u dealltwriaeth ohonynt. Bydd y panel hwn yn rhoi trosolwg o bob ymgeisydd a gaiff ei rannu â'r Panel Asesu Ymgynghorol. |
| Amserlen fras: Ebrill 2024 |
| |
| **Cam 5:** Gwahoddir yr ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad ffurfiol â'r Panel Asesu Ymgynghorol er mwyn dewis rhestr o ymgeiswyr y gellid eu penodi. Bydd gofyn ichi roi cyflwyniad, a bydd y panel hwn yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni meini prawf y swydd. Amserlen fras: Ebrill.<br><br>Bydd y Prif Weinidog yn ystyried barn ac asesiadau'r ddau banel ac yn penderfynu pa un o'r ymgeiswyr y gellid ei benodi, y dylid ei benodi. |
| Amserlen fras: Mai 2024 |
| |
| **Cam 7:** Bydd yr ymgeisydd a benodir yn mynd i wrandawiad cyn penodi â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwrandawiad hwn, bydd y Prif Weinidog yn gwneud y penderfyniad terfynol ar benodi Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf Cymru. |
| Amserlen fras: Mai 2024 |
| |
| Bydd y Comisiynydd Pobl Hŷn newydd yn dechrau yn ei swydd erbyn mis Awst 2024 neu'n fuan ar ôl hynny. |

**Amserlen ar gyfer y broses benodi**
Byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl i ymgeiswyr ar y rhestr fer am ddyddiadau asesu'r ddau banel. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiadau a

drefnir, byddwn yn ceisio aildrefnu'r cyfweliad ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser yn yr amserlen benodi neu os na fydd y panel ar gael.

**Datganiad ar Amrywiaeth**
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru a phobl o bob cefndir. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru yn annog amrywiaeth eang o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. Mae rhagor o wybodaeth am y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus ar gael yma Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus

**Hyderus o ran Anabledd**
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau er mwyn i bob aelod o staff fedru perfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (“amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn gyffredinol yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl a’ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Gofynnir i chi nodi a hoffech i'ch cais gael ei ystyried o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad wrth gyflwyno eich cais.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â’r Tîm Penodiadau Cyhoeddus PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru cyn gynted ag y medrwch a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

**Manylion Cyswllt**
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

Os hoffech ragor o gymorth wrth wneud cais am y swydd, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

## 3. Cefndir Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Rôl a Phwerau Cyfreithiol**
Mae rôl a phwerau statudol y Comisiynydd yn cael eu diffinio gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r camau y gall y Comisiynydd eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau a'r cymorth y gall y Comisiynydd ei ddarparu'n uniongyrchol i bobl hŷn mewn sefyllfaoedd penodol.

**Swyddogaethau'r Comisiynydd**

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

**Perthynas â Phobl Hŷn**
Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau:

- Bod pobl hŷn yng Nghymru yn cael gwybod am swyddfa'r Comisiynydd a'i swyddogaethau.
- Bod pobl hŷn yng Nghymru yn cael gwybod am leoliad swyddfa neu swyddfeydd y Comisiynydd ac ym mha ffyrdd y gallant gyfathrebu â'r Comisiynydd a'i staff.
- Bod pobl hŷn yn cael eu hannog i gyfathrebu â'r Comisiynydd a'i staff.
- Bod barn pobl hŷn yn cael ei cheisio ynghylch sut y dylai'r Comisiynydd arfer ei swyddogaethau ac ynghylch cynnwys rhaglen waith flynyddol y Comisiynydd.
- Bod y Comisiynydd a'i staff yn trefnu eu bod ar gael i bobl hŷn yn ardal pob person hŷn.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gael ar y wefan: www.comisiynyddph.cymru

Am drafodaeth gyfrinachol am y rôl, cysylltwch â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru:
**E-bost**: helena.herklots@comisiynyddph.cymru

## 4. Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried am y rôl, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

**Meini Prawf Hanfodol**
Bydd gan y person yr ydym yn chwilio amdano y cymwyseddau allweddol canlynol:

- Ymrwymiad amlwg i hyrwyddo a diogelu buddiannau pobl hŷn.

- Gwybodaeth am y materion a'r problemau sy'n wynebu pobl hŷn yng Nghymru ac am y cyd-destun polisi eang y mae gwasanaethau perthnasol yn gweithredu ynddo a dealltwriaeth ohonynt.

- Gwybodaeth ragorol am lywodraethiant gyda phrofiad sylweddol ar lefel uwch. Y gallu i arwain sefydliad sy'n ymateb i anghenion pobl hŷn yng Nghymru, wrth reoli cyllidebau, sicrhau llywodraethiant da a chydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol.

- Sgiliau rhwydweithio rhyngbersonol a chyflwyno datblygedig iawn. Y gallu i ennyn hyder pobl hŷn a'r cyhoedd ehangach, Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru, yn ogystal ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys sefydliadau iechyd, llywodraeth leol, y trydydd sector a'r cyfryngau a gweithio mewn partneriaeth â nhw.

- Y gallu i ryngweithio'n effeithiol â'r cyfryngau ac ymateb i bwysau ganddynt er mwyn sbarduno newid, tynnu sylw at arferion gorau a hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn.

- Gwybodaeth am Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a dealltwriaeth ohonynt a'r gallu i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU.

**Gofynion Dymunol**
Er nad yw'r canlynol yn hanfodol, croesewir yn arbennig ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu bod ganddynt:

- Gwybodaeth am y gwahanol wasanaethau a ddefnyddir gan bobl hŷn gan gynnwys trafnidiaeth, iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol, cyflogaeth ac addysg oedolion a dealltwriaeth weithredol ohonynt.

- Gwybodaeth am y cyfundrefnau rheoleiddio ac arolygu a ddefnyddir i arolygu'r gwahanol wasanaethau cyhoeddus a ddefnyddir gan bobl hŷn.

**Ffeithiau allweddol am y swydd**
Bydd gofyn i'r Comisiynydd weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol gyda'r nos ac ar benwythnosau yn rheolaidd, er mwyn mynychu cyfarfodydd a bod ar gael i bobl hŷn. Bydd hefyd yn ofynnol i'r Comisiynydd deithio i wahanol rannau o Gymru yn rheolaidd ac, o dro i dro, i rannau o'r DU, Ewrop neu ymhellach na hynny.

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Ledled Cymru gyda swyddfa yng Nghaerdydd |
| Ymrwymiad Amser: | Llawn-amser |
| Hyd y penodiad: | Cyfnod sefydlog o 7 mlynedd, na ellir ei ymestyn. |
| Tâl: | £90,000 - £95,000 y flwyddyn. Codir treth ac yswiriant gwladol ar y cyflog ac mae'n bensiynadwy. Nid oes cynnydd blynyddol na chynnydd awtomatig arall yn y cyflog ar gyfer y swydd hon. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar unrhyw gynnydd cyflog: os ystyrir unrhyw gynnydd, rhoddir sylw i ganfyddiadau blynyddol y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (ond ni fydd yn gyfyngedig iddynt), a chaiff ei wneud unol â'r canfyddiadau hynny. |

**Y Gymraeg**
Mae angen sgiliau Cymraeg o'r cychwyn cyntaf er mwyn cyflawni'r rôl yn foddhaol. Mae'r cyflogwr yn chwilio am rywun sydd â'r sgiliau hynny, ond gellir gwneud trefniadau tymor byr hyd nes y bydd gallu ieithyddol yr unigolyn a benodir yn gwella i'r lefel sydd ei hangen ar gyfer y rôl. Mae Canllaw Lefel Sgiliau'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru sy'n mynd o 1 i 5 ar gyfer pob sgil. Disgwylir i ddeiliad y swydd gyrraedd lefel 3 ar gyfer Dealltwriaeth, lefel 1 ar gyfer Darllen, lefel 3 ar gyfer Siarad a lefel 1 ar gyfer Ysgrifennu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan yr Uned Penodiadau Cyhoeddus.

Felly, mae'r penodiad hefyd yn agored i ymgeiswyr sy'n barod i ymrwymo i feithrin sgiliau Cymraeg / gwella eu sgiliau Cymraeg i'r lefel ddynodedig o fewn cyfnod penodol rhesymol.

**Pwy sy'n gymwys**
Dylai ymgeiswyr ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd yn unol ag Egwyddorion Nolan https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life.

Mae rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn yn golygu bod mewn cysylltiad ag oedolion sy'n agored i niwed. O ganlyniad, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu gael gwiriad gan y Gwasanaeth hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma am wiriadau'r DBS. Gan fod y rôl yn cael ei hystyried yn Gorfforaeth Undyn, cynhelir gwiriad ariannol manylach ar ei gyfer hefyd. Ni fyddwn yn cadarnhau'r penodiad i'r swydd hyd nes y bodlonir y gwiriadau/gofynion hynny.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn golygu y byddant yn anghymwys i fod yn aelodau o Senedd Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made.

**Gwrthdaro Buddiannau**
Gofynnir ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, neu a allai ymddangos fel pe baent yn gwrthdaro, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu hwnt i'r rôl.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn hefyd ichi ddatgan y buddiannau hynny ar gofrestr sydd ar gael i'w gweld gan y cyhoedd.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**
Bydd disgwyl ichi ddangos ymddygiad corfforaethol a phersonol o safon uchel. Bydd yn ofynnol i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen honno i'w gweld yma:

http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

**Telerau'r Penodiad**
Bydd y llythyr penodi yn amlinellu'n llawn delerau ac amodau'r swydd, sy'n seiliedig ar Delerau ac Amodau y Gwasanaeth Sifil.

**Ymrwymiad Amser**
Swydd lawn-amser yw'r swydd hon ond gellir ystyried orau gweithio hyblyg. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol ichi weithio unrhyw oriau a all fod yn angenrheidiol i gyflawni eich dyletswyddau fel y Comisiynydd yn effeithiol.

**Cymorth i Bobl Anabl**
Pan fo'n briodol, gwneir addasiadau rhesymol i sicrhau bod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu cyflawni'r rôl yn effeithiol.

**Y Broses Ddethol**
Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n rheoleiddio penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac mae'r broses benodi yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'u hymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus.

Croesewir ac anogir ceisiadau oddi wrth bob grŵp ac rydym yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd gyhoeddus yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu parchu, a chaiff y penodiadau eu gwneud ar sail teilyngdod.

**Dyddiad dechrau**
Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau yn y swydd ar 22 Awst 2024 neu'n fuan ar ôl hynny.

**Rhagor o Wybodaeth ac Ymholiadau**
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio ac i wneud cais, ewch i www.cymru.gov.uk/penodiadaucyhoeddus neu os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

**Dyddiad Cau a Dyddiadau Penderfynu Allweddol**
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **16:00, 9 Chwefror 2024.**

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi a ydych yn cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio o leiaf pythefnos cyn y cyfweliadau. Disgwylir i'r cyfweliadau gael eu cynnal yn ystod yr wythnosau sy'n dechrau 15 Ebrill 2024 a 22 Ebrill 2024.

Disgwylir penderfyniad y Prif Weinidog ar y penodiad hwn erbyn mis Mai 2024.